**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mercher 7 Gorffennaf, 11.00 – 12.00**
**Telegynhadledd**

| | |
|---|---|
| <u>**Yn Bresennol**</u> | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Wendy Gunney | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Michael Evans | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Len Richards | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Siân Sanders | Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu |
| Anne Wei | Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Jon Day | Rheolwr Twristiaeth a Buddsoddi, CC |
| Andrew Gregory | Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, CC |
| Victoria Beesley | Prif Swyddog Datblygu Busnes |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Bydd cofnodion yn cael eu hystyried yn y cyfarfod BGC nesaf ar 26 Gorffennaf | |
| 2. | **Gwyrddach, Tecach, Cryfach: Strategaeth Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas**<br><br>Amlinellodd Jonathan Day, Rheolwr Twristiaeth a Buddsoddi Cyngor Caerdydd y tueddiadau allweddol y mae'r strategaeth yn ymateb iddynt, a’r cenadaethau / ffrydiau gwaith arfaethedig i fynd i'r afael â nhw.<br><br>Meysydd trafod allweddol:<br><br>**Poblogaeth sy'n heneiddio** – bydd yr agenda heneiddio'n dda yn cael sylw, bydd mannau cyhoeddus yn cael eu curadu i fod yn ddefnyddiadwy gan bob grŵp a holl drigolion y ddinas. Bydd ymuno mewn partneriaeth yn y maes gwaith hwn yn bwysig.<br><br>**Unigedd** - Bydd Cenhadaeth 3 (Dinas o bentrefi) yn rhoi cyfle gwirioneddol i gefnogi mynd i'r afael ag unigedd, gan greu lleoedd y gall pobl ddod ynghyd yn eu cymuned leol<br><br>**Ailddatblygu YAC** - cydnabyddir bod hwn yn ddarn allweddol o waith ar gyfer dyfodol y ddinas a dylid ei nodi yn y strategaeth.<br><br>**Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor** - Mae cynllun seilwaith glas a gwyrdd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth, gan gydnabod y cryfderau sydd gan y ddinas yn y maes hwn.<br><br>**Cysylltiadau â’r trydydd sector** - o ran cefnogi'r broses ymgynghori a chyflawni'r strategaeth yn ehangach.<br><br>**Cynhwysiad** - rhaid i gynlluniau i ddatblygu'r ddinas fod yn gynhwysol, dod â buddion i'r anodd eu cyrraedd ac ardaloedd difreintiedig.<br><br>**Plismona** - bydd newidiadau i sut mae canol y ddinas yn cael ei ddefnyddio, a phwy sy'n cael eu denu i'r ardal yn cael effaith ar adnoddau a blaenoriaethau plismona. Bydd cynnwys yn gynnar yn helpu i dynnu sylw at faterion posibl a sicrhau y gellir bwydo arbenigedd i gynllunio.<br><br>**Anghydraddoldebau iechyd a chynaliadwyedd** - mae cyfleoedd yn glir drwy gydol y strategaeth a dylid manteisio arnynt.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>Partneriaid yn gwneud sylwadau ar y strategaeth i'w bwydo i mewn i'r broses ymgynghori | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Jon Day |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Bydd meysydd gwaith penodol o'r strategaeth hon yn cael eu datblygu a'u cyflwyno i'r BGC i'w trafod ymhellach.<br><br>Jon Day / Sheila Hendrickson Brown i drafod cyfleoedd i weithio gyda'r trydydd Sector | Jon Day / Ysgrifenyddiaeth<br><br>Jon Day / Sheila Hendrickson Brown |
| **3** | **Cronfa Ddyrannu Strategol CNC**<br>Amlinellodd Mike Evans nad yw CNC yn gallu dyrannu'r gyllideb i ganiatáu i’r FfDO i BGCau barhau am 21/22. Mae trafodaethau mewnol yn parhau ynghylch a ellir rhyddhau arian wrth i fuddion y cyllid hwn gael eu cydnabod.<br><br>BGC Caerdydd i nodi ei gefnogaeth a'i fuddion o'r FfDO<br><br>**Unrhyw fusnes arall**<br>Ceri Phillips, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gael gwahoddiad i fynychu cyfarfod BGC | <br><br><br><br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| | **Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:**<br>• BGC Caerdydd 26 Gorffennaf 2021<br>• BGC Caerdydd 22 Medi 2021 | |